



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Amddiffyn eich buches rhag TB

Canllawiau Esboniadol
Hydref 2016



Y Cefndir

- Mae TB (Tuberculosis) yn glefyd heintus a achosir gan y bacterium *Mycobacterium bovis* (M. bovis). Ar y cyfan, clefyd anadlol ydyw a drosglwyddir drwy anadlu defnynnau o sputum (mwcws sy'n cael ei besychu o'r llwybr anadlu isaf) ac sy'n cynnwys M bovis. Gall y bacterium hefyd fynd mewn i'r corff drwy ei amlyncu a gall haint fod yn bresennol mewn tail a slyri, llaeth ac weithiau mewn wrin.
- Ynghyd â gwartheg, gall M.bovis heintio ac achosi TB mewn amrywiaeth eang o famaliaid gan gynnwys moch daear, ceirw, geifr, moch, camelidau, cŵn a chathod
- Gall M.bovis effeithio ar fodau dynol ynghyd ag anifeiliaid ond caiff y risg i iechyd y cyhoedd ei chadw'n isel drwy brofi gwartheg yn rheolaidd, drwy basteureiddio llaeth a thrwy archiwilio cig yn rheolaidd mewn lladd-dai.
- Er bod Llywodraeth Cymru'n rhoi mesurau ar waith i atal y clefyd rhag lledaenu ac i ddiogelu iechyd y cyhoedd ac iechyd anifeiliaid, mae nifer o bethau y gallwch eu gwneud i leihau'r peryglon mae'ch buches yn eu hwynebu yn sgil TB.
- Mae 'Amddiffyn eich buches rhag TB' yn cynnwys pump o argymhellion ar y mesurau ymarferol y gallwch eu cymryd i leihau'r perygl o ddod â TB i'ch fferm.
- Bydd pwysigrwydd y mesurau hyn yn amrywio o fuches i fuches felly dylech gysylltu â'ch milfeddyg i wneud yn siŵr bod mesurau priodol ar waith gennych ar gyfer eich buches.
- Efallai na fydd yn ymarferol i weithredu pob un o'r mesurau ond drwy gymryd camau i leihau'r cyfleoedd sydd gan y clefyd i ledaenu, bydd hynny o gymorth i ddiogelu'ch fferm chi a ffermydd eraill.
- Os byddwch yn cael achos o TB, byddwch yn gymwys i gael Cymorth TB gan eich milfeddyg. Bydd hyn yn cynnwys mesurau bioddiogelwch pwrpasol a chyngor ar sut i glirio'r haint cyn gynted ag sy'n bosibl.

Gellir cael rhagor o wybodaeth am TB drwy fynd i www.cymru.llyw/tbmewngwartheg

Argymhellion ar gyfer lleihau'r risg o gyflwyno TB gwartheg

1. Peidio â gadael i wartheg heintiedig ymuno â'r fuches

Pam y dylid gwneud hyn?

- 1.1 Un o'r prif bethau sy'n peri i TB ledaenu yw symud gwartheg sy'n ledaenu'r clefyd.
- 1.2 Gellir pasio TB rhwng gwartheg, felly gall gwartheg heintiedig sy'n ymuno â'ch buches fod yn ffynhonnell haint hyd yn oed os ydynt wedi cael canlyniad negyddol i'r prawf yn ddiweddar. Mae yna risg bosibl o gyflwyno'r clefyd pan fyddwch chi'n cyflwyno unrhyw anifail newydd (er enghraifft anifeiliaid a brynwyd, gan gynnwys anifeiliaid wedi'u mewnfario, neu deirw llog) neu'n ailgyflwyno eich stoc eich hun i'ch buches (er enghraifft yn dilyn sioe neu ddychwelyd anifeiliaid heb eu gwerthu o'r farchnad).

Sut i leihau eich risg?

Gofyn am wybodaeth ynglŷn â hanes TB cyn i chi brynu gwartheg newydd

- 1.3 Ceisiwch gyngor ar iechyd anifeiliaid gan eich milfeddyg cyn prynu gwartheg.
- 1.4 Bydd edrych ar wefan www.ibtb.co.uk yn rhoi dealltwriaeth well i chi o'r sefyllfa o ran y clefyd yn yr ardal yr ydych chi'n prynu gwartheg ohoni. Gofynnwch am hanes TB y fuches yr ydych chi'n prynu gwartheg ohoni er mwyn asesu lefel y risg a chymryd camau i'w rheoli. Mae sticer TB yn y pasbort yn ffordd hawdd o nodi pa bryd y cafodd y gwartheg prawf clir ddiwethaf (os cânt eu prynu yng Nghymru).

Dylech ofyn o leiaf am:

- i) **Ddyddiad prawf TB cyn symud yr anifail:** Nid oes angen i bob anifail gael prawf cyn symud, ond os oes angen iddynt gael prawf, dylai'r prawf hwnnw fod wedi'i gynnal o fewn 60 diwrnod i'w gwerthu. Mae profi cyn symud yn lleihau'r

risg i wartheg heintiedig heb eu darganfod ledaenu clefyd. Ceir rhagor o fanylion ynglŷn â'r gofynion profi cyn symud gwartheg ac ar ôl eu symud ym Mhrydain Fawr, yn: www.gov.uk/government/publications/premovement-and-post-movement-tb-testing-of-cattle-in-great-britain

ii) **Dyddiad prawf buches rheolaidd diwethaf y gwerthwr:**

Gall gwybod beth yw'r dyddiad hwn gynnig sicrwydd ychwanegol os yw'r fuches wedi cael canlyniad negyddol i'r prawf TB yn ddiweddar, neu fe allai eich annog chi i ystyried ynysu a chynnal prawf ar ôl symud, cyn cyflwyno'r anifail i'ch buches.

Os cynhaliwyd y prawf gryn dipyn o amser yn ôl neu os ydych chi'n ansicr ynglŷn â hanes y profi e.e. os na chafodd yr anifail ei fagu yn y daliad y caiff ei werthu ohono, dylech chi ystyried ynysu'r anifail a gofyn i'ch milfeddyg gynnal prawf ar ôl symud (gweler 1.5 isod i gael rhagor o wybodaeth).

iii) **Dyddiad y cyflawnodd y fuches statws heb TB swyddogol (OTF):**

Dylai bob anifail sy'n cael ei werthu fod wedi cael canlyniad negyddol i'r prawf TB a dylent fod wedi dod o fuches gyda statws heb TB swyddogol (OTF). Fodd bynnag, mae faint o amser y mae'r fuches wreiddiol wedi bod yn OTF yn arwydd da o lefel y risg gan wartheg o'r fuches honno.

Cynnal prawf ar ôl symud ar wartheg sy'n ymuno â'r fuches

- 1.5 Nid yw gwartheg heintiedig fel arfer yn dangos arwyddion clinigol o TB a gallant ymddangos yn iach. Mae profi ar ôl symud yn fodd arall o amddiffyn a chael hyd i wartheg heintiedig cyn eu cyflwyno i'ch buches.
- 1.6 Argymhellir profi ar ôl symud i leihau'r risg o TB mewn cysylltiad ag anifeiliaid sy'n symud o ardal lle mae TB yn gyffredin neu o fuches sydd wedi cael TB yn ddiweddar.

Ni ddylid cynnal prawf ar ôl symud o fewn 60 diwrnod o brawf croen cyn symud. Y rheswm am hyn yw ei bod yn bosibl na fydd

gwartheg heintiedig yn ymateb i'r prawf croen os caiff y prawf ei gynnal eto yn rhy gynnar, h.y. cânt eu dadsensiteiddio. Bydd y dadsensiteiddio hwn yn cilio ar ôl 60 diwrnod ac felly yn dilyn hynny, gellir cynnal prawf ôl symud ar yr anifail.

Argymhellir bod profi ar ôl symud yn cael ei gynnal 60 i 120 diwrnod ar ôl i'r anifail gyrraedd eich fferm. Os yw'n bosibl, dylid ynysu anifeiliaid hyd nes i ganlyniadau'r prawf ddod i law er mwyn lleihau'r risg o ledaenu TB.

- 1.7 Nid yw profion ar gyfer TB yn berffaith ac nid yw canlyniad negyddol yn gwarantu na fydd gan yr anifail TB. Mae hyn oherwydd:
 - efallai bod yr anifail yng nghyfnod cynnar yr haint - rhy gynnar i'w ganfod drwy brawf
 - efallai bod yr anifail wedi dal yr haint ar ôl iddo gael ei brofi
 - mae'r profion yn well ar gyfer canfod haint pan gânt eu defnyddio ar sail buches yn hytrach nag ar gyfer unigolion neu grwpiau bach.
- 1.8 Felly, mae'n werth chweil cynnal prawf ar ôl symud hyd yn oed os yw'r anifail wedi pasio prawf cyn symud, gan ei fod yn rhoi cyfle arall i gael hyd i unrhyw haint heb ei ganfod neu anifeiliaid sydd wedi'u heintio ers y prawf.
- 1.9 Mae cyfyngiadau'r prawf TB yn peri risg benodol mewn cysylltiad â theirw llog. Gan ei bod yn bosibl i deirw ymweld â llawer o fuchesi bob blwyddyn, maen nhw'n peri risg uchel o ledaenu TB. Mae prynu eich tarw eich hun neu ddefnyddio Ffrwythloni Artiffisial (AI) yn llai o risg o lawer.

Ynysu pob buwch risg uwch cyn iddynt ymuno â'ch buches

- 1.10 Argymhellir eich bod yn ynysu gwartheg sy'n dod i'ch fferm oddi wrth wartheg eraill yn eich buches rhag ofn eu bod yn magu unrhyw glefyd ac er mwyn caniatáu amser i chi eu profi.
- 1.11 Os ydych chi'n prynu gwartheg o fuches a chanddi statws risg TB uwch (yn seiliedig ar eich asesiad o'r tri ffactor yn 1.4 uchod), dylent bob amser gael eu hynysu.

Dylai'r cyfnod ynysu bara am o leiaf 60 diwrnod fel

y gellir cynnal prawf ar ôl symud cyn eu cyflwyno i'ch buches.

- 1.12 Mae'r argymhellion hyn yn berthnasol i bob buwch sy'n ymuno â'r fuches, gan gynnwys stoc sydd newydd ei phrynu, teirw llog a gwartheg sy'n eiddo ichi sy'n dychwelyd i'r fferm e.e. o sioeau, marchnadoedd ac o safleoedd eraill.

Mae mwy o risg yn gysylltiedig â stoc wedi'i phrynu a theirw llog o'i chymharu ag anifeiliaid sydd wedi bod i ffwrdd o'r fferm am gyfnod byr. Serch hynny, mae'n bwysig cymryd yn ganiataol y gall cyfnodau byr i ffwrdd o'r fferm roi cyfle posibl i anifeiliaid gael eu heintio. Dylech chi fagu stoc newydd eich hun a/neu ddefnyddio AI lle bo hynny'n bosibl.
- 1.13 Bydd ymarferoldeb ynysu gwartheg yn dibynnu ar nifer o ffactorau, gan gynnwys nifer yr anifeiliaid a brynir, eu diben (cyfnod rheoli) o fewn y fuches a'r cyfleusterau ynysu priodol sydd ar gael.
- 1.14 Dylech chi drafod â'ch milfeddyg pa ddewisiadau a fyddai'n addas ar gyfer ynysu ar eich fferm.

2. Rheoli bwyd a dŵr gwartheg

Pam y dylid gwneud hyn?

- 2.1 Mae bwyd a dŵr yn peri risg o ledaenu TB rhwng gwartheg, o foch daear i wartheg neu o wartheg i foch daear. Os na reolir bwyd anifeiliaid yn ofalus, gall hefyd ddenu moch daear at eich fferm.

Gall moch daear heintiedig ysgarthu *M. bovis* (sef y bacteriwm sy'n achosi TB) mewn amrywiol ffyrdd: poer, wrin, ysgarthion a'r hylif a ddaw o'r clwyfau yn dilyn brathiad. Gall hyn arwain at halogi bwyd anifeiliaid a'r ardal o'i amgylch, a all fod yn ffynhonnell anuniongyrchol sy'n lledaenu'r clefyd i wartheg.

Sut i leihau eich risg?

Storfeydd bwyd anifeiliaid, cafnau a thorthau mwynau
a all wrthsefyll moch daear

Rhwystro moch daear i rhag mynd at storfeydd bwyd anifeiliaid

- 2.2 Dylai waliau a drysau'r storfa bwyd anifeiliaid fod wedi'u diogelu a'r drysau wedi'u cau (yn enwedig yn y nos) gan ddilyn y canllawiau ar gyfer adeiladau yn 5.5. Os na allwch chi stopio moch daear rhag ymweld â'ch storfeydd bwyd anifeiliaid, ystyriwch ffyrdd eraill o storio bwyd anifeiliaid, er enghraifft mewn biniau neu seilos wedi'u diogelu.
- 2.3 Dylid gorchuddio claddfeydd india-corn, cnydau cyfan a gwair yn dda ac os yw'n bosibl, ddiogelu'r arwyneb gan ddefnyddio ffens drydan neu unrhyw fesurau gwahardd eraill. Os ydych chi'n defnyddio ffens drydan, dylai'r gwifrau fod 10cm, 15cm ac 20cm uwchben y ddaear (gan gynnwys pedwaredd wifren ddewisol 30cm uwchben y ddaear).

Rhwystro moch daear rhag mynd at gafnau bwyd anifeiliaid a thorthau mwynau

- 2.4 Mae moch daear yn debygol o gael eu denu at gafnau bwyd anifeiliaid a thorthau mwynau. Gall bwydydd anifeiliaid y mae modd mynd atynt gynyddu'r tebygolrwydd bod moch daear yn dod i gysylltiad â gwartheg, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol drwy ysgarthion.

Er ei bod hi'n anodd gwahardd moch daear yn gyfan gwbl rhag mynd at gafnau bwyd anifeiliaid a thorthau mwynau, yn enwedig pan gânt eu defnyddio ar dir pori, mae yna fesurau y gallwch chi eu rhoi ar waith i'w gwneud yn llai deniadol ac yn anoddach i foch daear fynd atynt. Mae'r rhain yn cynnwys:

- i. Wrth fwydo gwartheg, rhoi dim ond hynny o fwyd anifeiliaid y bydd ei angen ar gyfer y dydd, fel na fydd unrhyw beth ar ôl ar gyfer moch daear yn y nos.
- ii. Glanhau cafnau yn rheolaidd i atal gweddillion rhag cronni, a all ddenu moch daear.

- ii. Codi cafnau bwyd mor uchel â phosibl, ond gan ganiatáu i wartheg eu defnyddio o hyd. Dylid codi'r cafnau o leiaf 90cm uwchben y ddaear, dylent fod ag ochrau serth ac ni ddylent gynnwys troedleoedd er mwyn ei gwneud hi'n anodd i foch daear eu dringo. Mae rhai cafnau'n cynnwys rholeri o amgylch yr ymylon er mwyn atal moch daear rhag dringo i mewn iddynt.
- iv. Defnyddio dalwyr i godi torthau mwynau mor uchel â phosibl. Gall y rhain fod yn sefyll ar eu pennau eu hunain heb droedleoedd a chydag ochrau serth, ynghlwm wrth giatiau neu'n hongian ar goed.

Peidio â rhoi bwyd anifeiliaid ar y ddaear ar dir pori, a chael gwared ar fwyd anifeiliaid sydd wedi'i gollu ar lawr

- 2.5 Mae gosod bwyd anifeiliaid ar y ddaear ar dir pori yn gwahodd bywyd gwyllt a dylid osgoi defnyddio hynny fel dull o fwydo gwartheg. Mae'n arfer da hefyd i sicrhau nad oes bwyd anifeiliaid wedi'i ollwng neu'i wastraffu ar eich fferm.

Defnyddio dŵr glân, ffres a chafnau dŵr sy'n gallu gwrthsefyll moch daear

- 2.6 Gall ffynonellau dŵr nad ydynt yn dod o brif gyflenwad fod wedi'u halogi gan dda byw neu foch daear. Dylid defnyddio dŵr o brif gyflenwad neu dŵr glân, ffres arall lle bo hynny'n bosibl a dylid glanhau cafnau dŵr yn rheolaidd.
- 2.7 Dylid gosod ffens o amgylch pyllau ac ardaloedd eraill y mae bywyd gwyllt yn yfed ohonynt.
- 2.8 Ni ddylai moch daear allu yfed o gafnau dŵr, a dylai'r mynediad at y dŵr yfed fod o leiaf 90cm uwchlaw'r ddaear, gan sicrhau eu bod ganddynt waliau serth sy'n gogwyddo tuag allan o'r gwaelod. Ni ddylid eu rhannu â buchresi cyfagos.

Dim ond ar ôl berwi neu basteureiddio llaeth gwastraff y dylid ei fwydo i loi

- 2.9 Dylid glanhau a diheintio'r cafnau'n rheolaidd er mwyn lleihau'r risg o wartheg yn dod i gysylltiad â dŵr wedi'i halogi. Mae'n rhaid i'r diheintydd a ddefnyddir fod ar y rhestr o Ddiheintyddion

Cymeradwy i'w defnyddio yng Nghymru, Lloegr a'r Alban dan Orchmynion Twbercwlosis, gan ddefnyddio'r gyfradd wanhau gymeradwy, ac mae'n rhaid iddo fod un ai yn ddiogel i'w ddefnyddio gyda bwyd neu ei olchi oddi ar arwynebau â llawer iawn o ddŵr: www.disinfectants.defra.gov.uk

- 2.10 Peidiwch â rhoi llaeth wartheg sydd wedi adweithio i'r prawf TB neu sydd wedi rhoi canlyniad amhendiant i loi neu dda byw arall, oni bai ei fod wedi'i drin yn briodol â gwres e.e. drwy ei ferwi neu ei basteureiddio, er mwyn lladd unrhyw haint a allai fod yn bresennol.
- 2.11 Yn gyfreithiol, ni ellir defnyddio llaeth amrwd a ddaw yn uniongyrchol o fuches laeth arall fel bwyd anifeiliaid ar gyfer anifeiliaid fferm. Gall ffermydd ar y gofrestr laeth ddefnyddio llaeth neu gynhyrchion llaeth o sefydliadau prosesu llaeth cofrestredig dan Reoliadau Sgil-gynhyrchion (Gorfodi) (Cymru) 2014. Fodd bynnag, fe'ch cynghorir i beidio â defnyddio llaeth neu gynhyrchion llaeth sydd wedi'u gwrthod rhag cael eu bwyta gan bobl, i fwydo lloi ar eich fferm. Mae rhagor o wybodaeth a chanllawiau ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru:

3. Lleihau risg oddi wrth fuchesi cyfagos

Pam y dylid gwneud hyn?

- 3.1 Mae cyswllt â gwartheg heintiedig o fuchesi cyfagos yn ffynhonnell bosibl arall o haint. Gall haint gan fuchesi cyfagos ddigwydd drwy gyswllt uniongyrchol (e.e. o drwyn i drwyn) neu drwy gyswllt anuniongyrchol (e.e. offer wedi'i halogi, rhannu cafau dŵr dros ffin, neu ledaeniad erisol wrth wasgaru tail neu slyri).

Sut i leihau eich risg

Edrychwch ar ddata ar heintiau TB lleol ar-lein

- 3.2 Mae gwybodaeth ynglŷn â lleoliad yr achosion o TB parhaus a'r achosion o TB sydd wedi'u datrys dros y pum mlynedd diwethaf yng Nghymru a Lloegr ar gael ar wefan: www.ibtb.co.uk –

sy'n rhoi gwybodaeth am TB gwartheg. Bydd hyn yn rhoi dealltwriaeth well i chi o'r sefyllfa o ran y clefyd yn eich ardal a'r bygythiad lleol i'ch buches.

Rhoi rhwystrau effeithiol ar waith rhwng buchesi cyfagos

- 3.3 (i) Mae'n bwysig cynnal a chadw ffens berimedr sy'n atal cyswllt uniongyrchol â gwartheg cyfagos, yn ogystal ag atal gwartheg rhag crwydro a chymysgu â stoc o fuchesi eraill.
- (ii) Mae'n rhaid i ffensys rhwng ffermydd wrthsefyll stoc yn briodol a dylai'r ffin fod mor llydan ag sy'n ymarferol bosibl, ac o leiaf dri metr o led er mwyn atal cyswllt o drwyn i dwyn. Mae hyn yn arbennig o bwysig ar gyfer ffermydd a chanddynt lawer o barseli tir gan fod ganddynt fwy o gymdogion ac felly mae mwy o risg iddynt ddod i gysylltiad â haint. Lle y gallai gwartheg ar ffermydd cyfagos ddod i gysylltiad â'i gilydd (giatau, cafnau a bylchau eraill) gall ffens drydan dros dro fod yn rhwystr addas er mwyn atal cyfleoedd i'r gwartheg ddod i gysylltiad â'i gilydd, ac o bosibl, lledaenu'r clefyd.
- (iii) Os ydych chi'n gymydog i fferm a chanddi TB, ni ddylech adael i wartheg bori mewn caeau sy'n agos at gaeau a chanddynt dda byw ynddynt ar yr un pryd, neu gaeau lle y caiff slyri neu dail ei wasgaru.

Osgoi rhannu offer neu gerbydau â ffermydd eraill

- 3.4 Gall lledaeniad anuniongyrchol ddigwydd drwy offer sydd wedi'u heintio â *M. bovis*. Mae rhai darnau o offer yn peri mwy o risg nag eraill – mae offer ar gyfer trin a lledaenu tail neu offer ar gyfer trin a chludo da byw yn debygol o beri risg uwch nag offer nad ydynt yn dod i gysylltiad ag anifeiliaid neu eu hysgarthion.
- 3.5 Os nad oes modd osgoi rhannu, mae'n bwysig bod offer yn cael eu glanhau a'u diheintio'n briodol. Dylech chi lanhau pob arwyneb mewnlol ac allanol yn drylwyr fel nad oes dim baw i'w weld cyn eu diheintio, gan fod diheintyddion yn llai effeithiol pan gânt eu rhoi ar arwynebau budr. Mae'n rhaid i'r diheintydd a ddefnyddir fod ar y rhestr o Ddiheintyddion Cymeradwy i'w

defnyddio yng Nghymru, Lloegr a'r Alban dan Orchmynion Twbercwlosis, gan ddefnyddio'r gyfradd wanhau gymeradwy: www.disinfectants.defra.gov.uk

- 3.6 Dylid defnyddio'r un rhagofalon gyda cherbydau risg uchel (e.e. cerbydau casglu carcasau a lorïau da byw) a gweithwyr sy'n dod i'ch fferm. Dylai offer glanhau a diheintyddion fod ar gael wrth fynedfeydd fferm neu fynedfeydd da byw; dylai ymwelwyr wisgo dillad allanol glân, esgidiau addas; a dylid gosod arwyddion yn gofyn iddynt lanhau a diheintio cyn dod i'r fferm.

Osgoi rhannu tir pori gwartheg â buchesi eraill

- 3.7 Mae rhannu tir pori â da byw sy'n eiddo i bobl eraill yn arbennig o beryglus, yn enwedig mewn ardal lle y gwyddys bod yna lefelau uchel o TB. Gall gwartheg nad ydynt yn heintiedig ddod i gysylltiad agos â da byw a allai fod wedi'u heintio, neu'n anuniongyrchol â deunydd sydd wedi'i heintio â TB, mewn mannau bwydo a dyfrio a rennir, neu wrth bori.

4. Lleihau haint o dail gwartheg

Pam y dylid gwneud hyn?

- 4.1 Gall gwartheg sydd wedi'u heintio ysgarthu *M. bovis* yn eu tail. Gall *M. bovis* fyw mewn ysgarthion ac fe all barhau'n heintus ar dir pori am hyd at chwe mis yn y gaeaf, ond dim ond am ddeufis yn yr haf, gan ddibynnu ar y tymheredd a chrynodiad y pathogenau yn yr ysgarthion.
- 4.2 Gall *M. bovis* oroesi mewn slyri wedi'i storio am hyd at 6 mis. Fodd bynnag, mewn tail gwartheg sydd â lefelau isel o leithder ac sy'n cynnwys llawer iawn o wellt, wedi'i bentyrru mewn tomen, efallai na all *M. bovis* oroesi mwy na 30 diwrnod, oherwydd y lefelau o wres a chompostio sy'n digwydd. Mae hyn yn llai tebygol o ddigwydd mewn tail gwlypach neu mewn slyri.
- 4.3 Yn gyffredinol, mae gwartheg yn osgoi pori yn agos at

ysgarthion gwartheg eraill, ac mae'n well ganddynt bori porfa aeddfed wedi'i gwarteithio gan dail/slyri. Ceir hefyd bethau y gallwch chi eu gwneud i leihau'r risg o dail/slyri yn heintio gwartheg â TB.

Sut i leihau eich risg

Storio tail am gyfnod hir cyn ei wasgaru ar dir eich fferm

4.4 Storiwch slyri a thail gwartheg â lefelau uchel o leithder am **o leiaf chwe mis** cyn ei wasgaru ar dir pori fel nad oes ond ychydig, neu ddim bacteria *M.bovis* o gwbl, yn bresennol pan fo'r tail/slyri yn cael ei wasgaru. Gellir gwasgaru tail â lefel isel o leithder wedi'i bentyrru mewn tomen ar ôl 30 diwrnod. Dylid storio slyri a thail mewn modd diogel nad oes modd i dda byw nac anifeiliaid gwyllt gael mynd atynt.

Peidiwch â gwasgaru tail ar dir pori neu dir â'r oni bai eich bod yn mynd i gadw gwartheg rhag ei bori am o leiaf deufis

4.5 Os na ellir dilyn y mesurau storio uchod, ni ddylech chi wasgaru tail/slyri ar dir pori neu dir â'r oni bai eich bod yn mynd i gadw gwartheg rhag ei bori am o leiaf deufis. **Dylai'r cyfnod osgoi pori am ddeufis fod yn berthnasol hefyd ar gyfer gwair a chnydau eraill y bwriedir eu defnyddio ar gyfer bwyd anifeiliaid.** Efallai y bydd y rhain hefyd yn fesurau ychwanegol defnyddiol ar gyfer storio hirdymor.

Lleihau'r defnydd o erosolau ac osgoi halogi ffyrdd wrth wasgaru tail

4.6 Gall erosolau tail helpu i ledaenu bacteria *M. bovis* ac mae anadlu'r organeb yn arbennig o bwysig yn y ffordd y mae'r clefyd yn lledaenu. Yn ddelfrydol, dylid gwasgaru tail mewn modd rheoledig ac ni ddylid gwasgaru tail mewn tywydd gwyntog neu'n rhy agos at ffiniau â chaeau lle mae gwartheg yn bresennol. Os yw'r dull o wasgaru tail yn cynhyrchu erosolau na ellir eu rheoli, mae'n cynyddu'r risg o ledaenu haint i gaeau â gwartheg ynddynt.

Peidio â gwasgaru tail o ffermydd eraill

- 4.7 Nid yw statws TB ffermydd eraill bob amser yn hysbys ar yr adeg y cesglir tail. Mae prynu tail o ffermydd eraill yn cynyddu'r risg o ddod â heintiau o'r ffermydd hynny, gan gynnwys *M. bovis*.
- 4.8 Mae rhagor o wybodaeth ynglŷn â'r hyn y gallwch chi ei wneud i helpu i leihau'r risg o haint TB yn eich buchesi ar gael gan yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA).

Glanhau adeiladau'r fferm

- 4.9 Mae'r cyfnod yn syth ar ôl i chi ryddhau eich gwartheg, yn dilyn cyfnod hir o fod dan do, yn gyfle perffaith i lanhau a diheintio'r adeiladau yn drylwyr er mwyn sicrhau nad yw unrhyw heintiau sy'n bresennol yn goroesi hyd nes y daw'r gwartheg yn ôl dan do.

5. Cyfyngu ar gyswllt rhwng moch daear a gwartheg

Pam y dylid gwneud hyn?

- 5.1 Gall moch daear heintiedig ysgarthu *M. bovis* mewn poer, wrin, ysgarthion a'r hylif a ddaw o'r clwyfau yn dilyn brathiad. Gallant ledaenu TB i wartheg drwy gyswllt uniongyrchol (e.e. o drwyn i drwyn) neu gyswllt anuniongyrchol â deunydd (e.e. ffynonellau bwyd anifeiliaid, porfa neu ddŵr) wedi'i heintio â'u hysgarthion.
- 5.2 Mewn ardaloedd TB uchel, mae moch daear yn ffynhonnell bosibl o haint. Felly, mae'n bwysig lleihau'r risg o foch daear yn lledaenu'r clefyd i wartheg yn yr ardaloedd hyn. Mewn rhai lleoedd, mae hi hefyd yn bwysig cyfyngu ar ba mor aml y mae gwartheg yn dod i gysylltiad â bywyd gwyllt arall a allai ledaenu haint e.e. ceirw, baeddod gwyllt fferal.
- 5.3 Er bod lefel yr haint mewn moch daear mewn ardaloedd TB isel a chanolig, yn isel, sy'n golygu nad ydynt yn cynrychioli ffynhonnell bwysig o haint ar gyfer gwartheg, mae'n parhau i fod yn bwysig i leihau'r cyfle i foch daear a gwartheg ddod i gysylltiad â'i gilydd. Mae hyn yn atal haint rhag lledaenu rhwng moch daear a gwartheg, yn ogystal ag atal TB rhag ymsefydlu yn y boblogaeth moch daear.

Sut i leihau eich risg

A yw moch daear yn ymweld â'ch fferm?

5.4 Dylech ymgysylltu ag arwyddion o weithgarwch moch daear. Gall fod yn ddefnyddiol nodi lleoliad brochfeydd, carthfeydd a llwybrau cerdded moch daear ar fap. Bydd hyn yn helpu i lywio eich penderfyniadau ynglŷn â phori a dewis y mesurau mwyaf priodol i leihau cysylltiadau rhwng eich gwartheg a moch daear. Gellir defnyddio camerâu gwylidwriaeth i fonitro gweithgarwch moch daear, yn enwedig o amgylch adeiladau fferm.

Cyflwyno rhwystrau i gyfyngu ar allu moch daear i ddod i gysylltiad â gwartheg

- 5.5 Mae ffynonellau bwyd anifeiliaid agored yn bryd hawdd o fwyd i foch daear. Gall moch daear ymweld ag adeiladau fferm (yn enwedig storffeydd bwyd anifeiliaid) yn aml a hyd yn oed os nad ydych chi'n eu gweld nhw, mae'n bosibl y byddant yn dal i wneud hynny. I leihau'r risg o foch daear yn ymweld â'ch adeiladau fferm, cymerwch y camau canlynol i gyfyngu mynediad atynt:
- Dylai ochrau adeiladau, drysau a giatiau fod o wneuthuriad llyfn a chadarn er mwyn atal moch daear rhag eu dringo, a dylent hefyd fod o leiaf 1.5 metr o uchder. Gellir defnyddio amrywiol ddeunyddiau, megis dalenni o fetel neu bren haenog i gyflawni hyn.
 - Ni ddylai bylchau fod yn fwy na 7.5cm er mwyn atal moch daear rhag cael mynediad. Mae hyn yn cynnwys bylchau ar waelod ac ar ochrau giatiau.
 - Sicrhau bod arwyneb y llawr dan ddrysau yn galed (h.y. conchrid neu garreg) gan y bydd moch daear penderfynol yn cloddio oddi tanynt. Dylid cadw giatiau a drysau ar gau pan nad ydynt yn cael eu defnyddio, ac yn enwedig yn y nos. Mae hyn yn berthnasol ar gyfer pob giât a drws i adeilad sy'n cynnwys da byw, gwellt gwely a bwyd anifeiliaid.

- 5.6 Gellir defnyddio gwifrau o ffens drydan i gadw moch daear draw. Dylid gosod gwifren ffens drydan 10cm, 15cm, 20cm a 30cm uwchben y ddaear a dylid sicrhau nad oes llystyfiant yn tyfu o'i chwmpas. Fel arall, mae ffens barhaol sy'n gallu gwrthsefyll moch daear ar gael i'w gosod. Mewn rhai sefyllfaoedd, mae'n bosibl ei bod yn fwy ymarferol i osod ffens o amgylch yr iard gyfan neu adeiladu wal o'i chwmpas.
- 5.7 Gall eich gwybodaeth a'ch profiad chi eich hun o'ch fferm awgrymu bod risg arbennig o ledaenu TB i wartheg ar rai porfeydd penodol, felly dylid osgoi pori ar y rhain os oes modd gwneud hynny. Dewis arall efallai fyddai rhoi defaid i bori'r ardaloedd hyn yn lle gwartheg.
- 5.8 Gall pori ehangach / dwys annog gwartheg i bori ar ymyl y cae lle y ceir mwy o risg o halogiad gan ysgarthion ac wrin moch daear mewn carthfeydd moch daear. Dylech chi hefyd osgoi caniatáu i wartheg grwydro drwy goetir.
- 5.9 Lle bynnag y bo modd, dylech atal anifeiliaid rhag mynd at gysiau dŵr a rennir megis pyllau neu nentydd, a darparu cyflenwad dŵr piben i gafnau yn lle.

Cyfyngu ar allu gwartheg i fynd at garthfeydd a brochfeydd moch daear

- 5.10 Gosodwch ffens i gadw gwartheg draw o frochfeydd a charthfeydd moch daear, gan ddefnyddio naill ai ffens barhaol neu ffens drydan dros dro, ond peidiwch â rhwystro moch daear rhag mynd at eu brochfeydd. Wrth wneud silwair, osgowch dorri'r ardaloedd hyn oherwydd gallent gynnwys deunyddiau heintiedig. Gall lleoliad carthfeydd moch daear newid dros amser ac efallai y bydd angen symud y ffens. Os yw'n bosibl, dylech atal gwartheg rhag pori mewn caeau a chanddynt lefel uchel o weithgarwch moch daear.
- 5.11 Lleolir carthfeydd moch daear ar ymylon caeau yn aml, felly efallai mai'r dewis gorau yw atal gwartheg rhag pori ar ffiniau caeau yn gyfan gwbl e.e. gan ddefnyddio ffens drydan dros dro.

6. Rhagor o wybodaeth

Gweithiwch gyda'ch milfeddyg i gynllunio iechyd eich fuches ac, os oes gennych unrhyw amheuaeth am y peryglon sy'n gysylltiedig â'r clefyd, dylech gael cyngor gan eich milfeddyg. Hefyd, gallwch gael rhagor o wybodaeth drwy fynd i'r dolenni isod;

Yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion:

www.gov.uk/government/organisations/animal-and-plant-health-agency

Prosiect bioddiogelwch Coleg Bicton:

www.southwestbadvice.co.uk/biosecurity/bicton-college-biosecurity-project

Bioddiogelwch:

www.gov.wales/topics/environmentcountryside/ahw/biosecurity

Safonau Ardystio Iechyd Gwartheg (CHeCS):

www.checs.co.uk

Herdsure Cattle Health Improvement Service:

www.ahvla.defra.gov.uk/apha-scientific/services/herdsure/index.htm

Gwybodaeth am TB mewn gwartheg (ibTB):

www.ibTB.co.uk

My Healthy Herd:

www.myhealthyherd.co.uk

TB Advantage:

www.dairy.ahdb.org.uk/technical-information/breeding-genetics/tb-advantage

TB Hub:

www.tbhub.co.uk

Canllawiau fideo:

www.tbhub.co.uk/biosecurity/video-guides